

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Addysg feithrin ar gyfer plant 3 a 4 oed yng Nghymru

## Meithrin y Cyfnod Sylfaen: Canllawiau i rieni a gofalwyr







chwarae • dysgu • tyfu
play • learn • grow
cyfnod sylfaen 3–7 foundation phase

mae addysg yn dechrau **yn y cartref**
education begins **at home**

© Hawlfraint y Goron 2019 WG36880 ISBN digidol 978 1 78964 656 6 ISBN argraffu 978 1 78964 657 3

# Cynnwys

**Beth yw Cyfnod Sylfaen meithrin?** **4**

**Pryd bydd fy mhlentyn yn manteisio ar Gyfnod Sylfaen meithrin a ariennir?** **5**

**Beth yw manteision y Cyfnod Sylfaen ar gyfer fy mhlentyn?** **6**

**Dysgu trwy chwarae** **7**

**Beth mae fy mhlentyn yn ei ddysgu?** **8**

**Sut bydd fy mhlentyn yn dysgu a pha fath o weithgareddau fydd fy mhlentyn yn cymryd rhan ynddyn nhw?** **9**

**A fydd fy mhlentyn yn dysgu sut i ddarllen ac ysgrifennu?** **10**

**Sut galla' i gael hyd i le Cyfnod Sylfaen meithrin ar gyfer fy mhlentyn?** **11**

**Dewis lleoliad meithrin neu ysgol sy'n darparu Cyfnod Sylfaen meithrin** **11**

**Ydy plant ag anghenion addysgol arbennig yn dilyn y Cyfnod Sylfaen?** **12**

**Ble galla' i gael rhagor o wybodaeth am Gyfnod Sylfaen meithrin ac addysg blynyddoedd cynnar?** **13**

# Beth yw Cyfnod Sylfaen meithrin?

Term cyffredinol yw ‘Cyfnod Sylfaen meithrin’. (Cyfeirir ato hefyd fel yr ‘hawl i addysg gynnar’ ac ‘addysg gynnar a ariennir’.) Mae’n disgrifio’r amser y mae eich plentyn yn ei dreulio yn y Cyfnod Sylfaen rhwng tair a phedair oed. Mae hwn yn gyfnod pwysig ym mywyd eich plentyn gan ei fod yn gosod sylfaen ar gyfer eu haddysg yn y dyfodol ac yn rhan o’r cwricwlwm presennol a chwricwlwm y dyfodol.



# Pryd bydd fy mhlentyn yn manteisio ar Gyfnod Sylfaen meithrin a ariennir?

Bydd hawl gan eich plentyn i gael addysg a ariennir, ran amser o safon yng Nghyfnod Sylfaen meithrin am o leiaf 10 awr yr wythnos. Gall hon fod mewn lleoliad (a all fod yn feithrinfa, grŵp chwarae a ariennir neu warchodydd plant) a gymeradwyir gan eich awdurdod lleol neu ysgol. Byddai eich plentyn yn dechrau Cyfnod Sylfaen meithrin o'r tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn dair oed.

| Pen-blwydd eich plentyn | Pryd all fy mhlentyn ddechrau yng Nghyfnod Sylfaen meithrin? |
|---|---|
| 1 Medi i 31 Rhagfyr | Dechrau'r tymor ar neu ar ôl 1 Ionawr |
| 1 Ionawr i 31 Mawrth | Dechrau'r tymor ar neu ar ôl 1 Ebrill |
| 1 Ebrill i 31 Awst | Dechrau'r tymor ar neu ar ôl 1 Medi |



# Beth yw manteision y Cyfnod Sylfaen ar gyfer fy mhlentyn?

Mae gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen yn digwydd y tu fewn a'r tu allan ac yn caniatáu i blant ddysgu drwy chwarae. Mae'r cwricwlwm yn rhoi'r cyfle i bob plentyn fod yn ganolbwynt i'w dysgu eu hunain. Bydd diddordebau eich plentyn yn cael eu hystyried a bydden nhw'n cael eu hannog i wneud dewisiadau am eu dysgu. Bydd staff cymwys yn arsylwi'r plant, gan weithio gydag unigolion, grwpiau bach, neu'r grŵp cyfan ar adegau er mwyn ehangu a datblygu'r dysgu. Mae hyn yn creu profiad dysgu sy'n ymarferol, yn hwyl ac yn llawn gweithgareddau i'r plentyn gymryd rhan ynddyn nhw, sydd yn hysbys i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu.



## Dysgu trwy chwarae

Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i adeiladu ar yr egwyddorion o ddysgu trwy chwarae. Mae ymchwil yn profi bod dysgu yn hanfodol i ddatblygiad addysgol pob plentyn, ac mae tystiolaeth yn dangos bod dysgu drwy chwarae yn adnodd pwerus sy'n gallu helpu plant i ddatblygu ac ehangu eu sgiliau iaith a chyfathrebu. Mae'n caniatáu i blant dangos menter, cymryd risgiau a gwneud camgymeriadau heb ofn methu. Chwarae yw'r ffordd mae plant ifanc yn gwneud synnwyr o'r byd.

Mae sawl math o chwarae sy'n cefnogi cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae enghreifftiau yn cynnwys chwarae rôl, chwarae adeiladu, chwarae creadigol, chwarae archwiliadol a chwarae dychmygus.



# Beth mae fy mhlentyn yn ei ddysgu?

Bydd eich plentyn yn datblygu sgiliau, cael gwybodaeth newydd a dangos ei ddealltwriaeth trwy'r saith Maes Dysgu (chwech yn y lleoliadau neu yn yr ysgolion hynny lle mai Cymraeg yw'r brif iaith).




**Nodiadau**

[1] Bydd hyn yn Gymraeg neu yn Saesneg yn dibynnu ar bolisi iaith y lleoliad neu ysgol.

[2] Nid yw'n ofynnol yn y lleoliadau neu'r ysgolion sy'n dilyn y Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.

# Sut bydd fy mhlentyn yn dysgu a pha fath o weithgareddau fydd fy mhlentyn yn cymryd rhan ynddyn nhw?

Bydd eich plentyn yn cael cyfleoedd i ddysgu a deall drwy brofiadau ymarferol a thrwy helpu i gynllunio gweithgareddau ymarferol sy'n berthnasol i'w gam datblygu a chymryd rhan ynddyn nhw. Mae treulio amser yn yr awyr agored hefyd yn rhan bwysig o'r Cyfnod Sylfaen, gan y bydd yn rhoi cyfle i'ch plentyn ddysgu a darganfod drwy weithgareddau a gaiff eu cynllunio a gweithgareddau ar hap, wrth ddatblygu eu sgiliau corfforol a gwybyddol.

Mae'n werth crybwyll y bydd eich plentyn yn cael hwyl wrth ddysgu drwy weithgareddau a all olygu na fyddan nhw bob amser yn dod adref mor lân â'r disgwyl ond mae manteision lu ynghlwm wrth ddysgu drwy weithgareddau creadigol sy'n defnyddio'r holl synhwyrau. Er enghraifft, gallai eich plentyn gael ei annog i ddatblygu eu sgiliau gwneud marciau drwy ddefnyddio paent mwd gwlyb y tu allan, a allai fynd ar eu dillad. Er y bydd y staff yn y lleoliad neu ysgol yn darparu dillad ar gyfer gweithgareddau mwy blêr ac yn annog eich plentyn i olchi ei hun, mae peth baw ar ddillad yn siŵr o ddigwydd.



## A fydd fy mhlentyn yn dysgu sut i ddarllen ac ysgrifennu?

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn pwysleisio pwysigrwydd sgiliau darllen a sgiliau ysgrifennu da. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau nad yw plant yn cael eu gwthio i ddarllen ac ysgrifennu'n rhy gynnar. Caiff plant ifanc iawn eu hannog i ddatblygu sgiliau cyn ysgrifennu a chyn darllen drwy ymarferion datblygu iaith a gweithgareddau sy'n eu helpu i ddeall synau drwy gemau, creu patrymau, canu a storïau. Caiff sgiliau cyn ysgrifennu eu datblygu drwy wneud marciau gyda theclyn ac offer ysgrifennu arall ar ystod o arwynebau megis sialc yn yr iard chwarae neu ffyn mewn mwd, tynnu lluniau, peintio, edafu, a gweithgareddau eraill sy'n datblygu rheolaeth dros eu cyhyrau.



## Sut galla' i gael hyd i le mewn Cyfnod Sylfaen meithrin ar gyfer fy mhlentyn?

Gallwch chi gysylltu â Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd eich awdurdod lleol sy'n gallu rhoi gwybodaeth a chymorth i chi ar wasanaethau sy'n amrywio o wasanaethau gofal plant i restr o leoliadau yn eich ardal sydd wedi'u cofrestru i ddarparu lleoedd a ariennir, rhan amser yn y Cyfnod Sylfaen.

## Dewis lleoliad meithrin neu ysgol sy'n darparu Cyfnod Sylfaen meithrin

Dyma rai awgrymiadau ar ddewis y feithrinfa gywir ar gyfer eich plentyn.

1. Ymwelwch â lleoliad neu ysgol – mae llawer ohonyn nhw'n cynnal diwrnodau agored.
2. Darllenwch adroddiadau arolygu diweddaraf Estyn yn **estyn.llyw.cymru**.
3. Ewch i wefan Fy Ysgol Leol yn **fyysgolleol.llyw.cymru**
4. Os bydd eich awdurdod lleol yn cynnig yr opsiwn o ddewis lleoliad nas cynhelir i gael mynediad at Feithrinfa Cyfnod Sylfaen, efallai y byddai'n ddefnyddiol ichi fynd i wefannau sefydliadau blynyddoedd cynnar (gweler isod) i gael mwy o wybodaeth am y fath o leoliadau maent yn eu cefnogi.
   - Mudiad Meithrin **www.meithrin.cymru**
   - Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd Cymru (NDNA Cymru) **www.ndna.org.uk**
   - PACEY (Cymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar) **www.pacey.org.uk**
   - Blynyddoedd Cynnar Cymru **Earlyyears.wales**

# Ydy plant ag anghenion addysgol arbennig yn dilyn y Cyfnod Sylfaen?

Bydd pob plentyn, gan gynnwys plant ag anghenion addysgol arbennig (gweler nodyn 3), yn gallu dilyn cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

I gael gwybod mwy ar beth sydd ar gael i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig ewch i **dysgu.llyw.cymru** a chwiliwch 'Gwybodaeth i ofalwyr sy'n gofalu am bobl ifanc'.



**Nodyn**

[3] Bydd y term 'anghenion addysgol arbennig' yn newid i 'anghenion dysgu ychwanegol' yn unol â Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Yn raddol, bydd y derm newydd yn disodli'r hen derm yn y cyfnod cyn y trefniadau newydd, a fydd yn cael effaith o fis Medi 2020.

# Ble galla' i gael rhagor o wybodaeth am Gyfnod Sylfaen meithrin ac addysg blynyddoedd cynnar?

Rydym am eich sicrhau bod eich plentyn yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd. Felly rydym yn benderfynol o roi'r holl wybodaeth angenrheidiol i chi am addysg blynyddoedd cynnar, gan gynnwys Cyfnod Sylfaen meithrin, a sut bydd addysg eich plentyn yn datblygu.

## Cyfnod Sylfaen meithrin

Mae gan blant tair a phedair oed yr hawl i 10 awr yr wythnos o Gyfnod Sylfaen meithrin o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed. Dyma hawl cyffredinol sy'n agored i rieni a gofalwyr plant tair a phedair oed yng Nghymru.

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan eich awdurdod lleol neu ar **beta.llyw.cymru/cyfnod-sylfaen**.

Dylai copïau o ddogfennau'r Cyfnod Sylfaen fod ar gael mewn llyfrgelloedd cyhoeddus neu ewch i **beta.llyw.cymru/cyfnod-sylfaen**.

## Dechrau'n Deg

Mae Dechrau'n Deg yn helpu i ddarparu cyfleoedd i blant a theuluoedd o ardaloedd difreintiedig ledled Cymru. Mae gan blant dwy i dair oed yr hawl i 12.5 awr yr wythnos o ddarpariaeth Dechrau'n Deg o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn ddwy oed tan y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed.

Er mwyn cymryd rhan yn y rhaglen Dechrau'n Deg rhaid i chi fyw mewn ardal Dechrau'n Deg. Dylai'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn eich ardal roi rhagor o wybodaeth am hyn i chi.

## Y Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru

Mae'r Cynnig Gofal Plant ar gyfer Cymru yn cael ei brofi mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio i rieni a gofalwyr. Mae'n rhoi cymorth gyda chostau gofal plant rhieni a gofalwyr sy'n gweithio. Mae plant tair a phedair oed yn gymwys amdano yn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed tan iddyn nhw fynd i addysg amser llawn (y mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed fel arfer).

Er mwyn cael mynediad at y cynnig rhaid i'r ddau riant neu ofalwr (neu'r unig riant neu ofalwr mewn teulu un rhiant) ennill yr hyn sy'n cyfateb i 16 awr yr wythnos ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol neu'r Cyflog Byw Cenedlaethol, yn dibynnu ar oedran, ac ennill o dan £100,000 y person y flwyddyn.

Ceir rhagor o wybodaeth ar **llyw.cymru/trafodgofalplant**.

## Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD)

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) Mae yn darparu gwybodaeth gyfredol am ddim a diduedd, cyngor ar amrywiaeth o bynciau teuluol, gan gynnwys addysg.

Mae mwy o wybodaeth am y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd ar **gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/familyinformationservices/?skip=1&lang=cy**.

